

Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yn yr Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru

ARGYMHELLIAD	DERBYN / DERBYN MEWN EGWYDDOR	SYLWADAU / Y SEFYLLFA BRESENNOL
Gweithredu'r Argymhellion		
1. Bod argymhellion yr adroddiad hwn yn cael eu crynhoi mewn Cynllun Cyflawni. Bydd y Cynllun Cyflawni hwn yn nodi sut y bwrir ymlaen ag argymhellion. Bydd yn ystyried materion megis: pa bartïon fydd yn rhan o'r peth, y prif gyfrifoldeb, blaenoriaethau, llywodraethu a'r adnoddau a'r gallu i gyflawni.	Derbyn	Gofynnwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru arwain ar y gwaith o gydlynu cynllun cyflawni, gan weithio ar y cyd â swyddogion Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Rheoli Risg. Bydd y cynllun cyflawni yn gymorth i flaenoriaethu a gweithredu'r argymhellion hyn. Mae gweithdy gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Rheoli Risg a swyddogion Llywodraeth Cymru wedi'i drefnu ddiwedd Gorffennaf er mwyn ystyried sut i roi'r argymhellion a dderbyniwyd ar waith.
2. Dylai'r Cynllun Cyflawni ystyried cyfleoedd i ehangu'r argymhellion y tu hwnt i beryglon llifogydd ac erydu arfordirol yn unig ac ystyried y cysylltiad â pheryglon llifogydd o ffynonellau eraill.	Derbyn	Mae nifer o argymhellion yn yr adolygiad y gellir, ac y dylid eu defnyddio gyda phob ffynhonnell o beryglon llifogydd ac erydu arfordirol. Dylid cynnwys hyn yn y cynllun cyflawni.
Argymhellion – Difrifoldeb Stormydd		
3. Mae angen gwneud rhagor o waith i asesu cyd-debygolrwydd y gwynt, y tonnau a'r llanw ar gyfer y stormydd gaeaf hyn a gafwyd yn ddiweddar. Gellid cynnal asesiad cychwynnol ynghyd ag ystyried cynnal dadansoddiad mwy manwl. Bydd angen rhagor o drafodaeth dechnegol er mwyn pennu cwmpas y gwaith hwn.	Derbyn	Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru, drwy weithio gyda'r Swyddfa Dywydd a'r Ganolfan Darogan Llifogydd, ddefnyddio data a gafwyd yn ystod ac ar ôl y stormydd hyn i edrych ar y tebygolrwydd y bydd digwyddiadau o'r fath yn digwydd eto er mwyn gallu cynnwys hyn yn y gwaith cynllunio. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cynnal trafodaethau â'r rhaglen ymchwil a datblygu ar y cyd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, DEFRA ac Asiantaeth yr Amgylchedd, ynghylch y posibilrwydd o ddatblygu hyn.

<p>4. Adolygu a diweddarau os bydd gofyn, set ddata lefel eithafol y môr o gwmpas arfordir Cymru. Mae'r llanw a welwyd yn ddiweddar ymhlith yr uchaf a welwyd ers blynyddoedd lawer. Efallai y bydd angen diwygio'r set ddata hon. Dylai hyn gynnwys dulliau i asesu'r cyd-debygolrwydd ar gyfer difrifoldeb stormydd.</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Mae angen bwydo data newydd a gafwyd o'r stormydd hyn i setiau data sy'n bodoli eisoes. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cynnal trafodaethau â'r rhaglen ymchwil a datblygu ar y cyd ynghylch y posibilrwydd o ddatblygu hyn.</p>
<p>5. Adolygu a diweddarau yn ôl y gofyn, y canllawiau a ddefnyddir i asesu a dylunio safon gwasanaeth arfordirol rhag llifogydd. Dylai'r adolygiad ystyried a oes angen rhagor o eglurhad, yn enwedig ynghylch y materion sy'n ymwneud â thrin cyd-debygolrwyddau, cydeffeithiau a chysondeb cenedlaethol priodol</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Yn sgil effaith y llanwau a'r stormydd ym mis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014, dylid adolygu unrhyw ganllawiau ynghylch safonau amddiffyn yr arfordir. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â chanlyniadau argymhelliad 3 sy'n edrych ar asesu'r tebygolrwydd y bydd stormydd tebyg yn digwydd eto.</p>
<p>Argymhellion – Rhagolygon Llifogydd</p>		
<p>6. Parhau i bennu a manteisio ar gyfleoedd seiliedig ar risg i sicrhau gwelliannau pellach mewn rhagolygon tymor hwy.</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Mae hwn yn weithgaredd parhaus i Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rhan o nifer o brosiectau gwahanol. Dylai'r holl waith a wneir ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg. Mae rhagolygon tymor hwy yn rhoi rhagor o amser i hysbysu, paratoi ar gyfer effeithiau posibl neu i symud pobl o'u heiddo a dyrannu adnoddau.</p>
<p>7. Ystyried gyda phartneriaid y wybodaeth ychwanegol y gellid ei darparu mewn rhagolygon i hwyluso penderfyniadau ar reoli digwyddiadau lleol. Pennu opsiynau ac argymhellion.</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Mae gwybodaeth leol a phenderfyniadau lleol ar sail cyngor ac arweiniad yn hanfodol i'r ymateb gweithredol lleol. Gall gwybodaeth ychwanegol ategu gwybodaeth i wneud penderfyniadau.</p>
<p>8. Parhau i fanteisio ar gyfleoedd seiliedig ar risg i wella cywirdeb y gwasanaeth rhagolygon arfordirol. Datblygu a chyflawni</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Dylai'r holl waith a wneir ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg. Croesewir unrhyw waith i wella rhagolygon arfordirol. Mae peth gwaith yn cael ei wneud ar hyn yng</p>

rhaglen o waith gwella.		Nghymru a Lloegr eisoes.
9. Adolygu'r cyfan o'r rhwydwaith bwiau tonnau o gwmpas arfordir Cymru, gan gydweithio ag UKCMF i ddelio â bwlich strategol yn y rhwydwaith bwiau tonnau ar y môr ym Môr Iwerddon. Mae angen gwneud hyn er mwyn dilysu rhagolygon tonnau ar y môr yn well, fel y bydd gwelliannau yng ngwasanaeth rhagolygon Cymru. <i>(UKCMF - Gwasanaeth Monitro a Rhag-weld Arfordirol y DU)</i>	Derbyn	Mae angen i adolygiad o'r rhwydwaith bwiau tonnau ddelio â'r bwlich strategol yn y rhwydwaith bwiau tonnau ar y môr ym Môr Iwerddon. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal trafodaethau yn hyn o beth gyda Gwasanaeth Monitro a Rhag-weld Arfordirol y Deyrnas Unedig ac Asiantaeth yr Amgylchedd.
Argymhellion – Rhybuddion Llifogydd ac Ymateb y Gymuned		
10. Cwblhau'r gwaith sy'n mynd ymlaen erbyn haf 2014 i 'ailfrandio' y gwasanaeth rhybuddion llifogydd yng Nghymru i ddangos yn glir mai Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ei ddarparu.	Derbyn	Mae'r gwaith hwn yn mynd yn ei flaen a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn haf 2014. Ar hyn o bryd, caiff rhybuddion llifogydd yng Nghymru eu cyhoeddi drwy systemau a reolir gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Bydd yr ailfrandio'n dangos yn glir mai Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n darparu rhybuddion llifogydd i Gymru.
11. Datblygu a chyflawni rhaglen wedi'i blaenoriaethu o waith gwella ar ardaloedd a throthwyon rhybuddion llifogydd, gan wneud defnydd o brofiad a data a gafwyd o'r stormydd hyn. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â phartneriaid proffesiynol a chymunedau fel y bo'n briodol.	Derbyn	Gyda gwybodaeth fwy cywir, gellir cynhyrchu rhybuddion mwy cywir a chymryd camau gweithredu priodol, gan gynnwys symud pobl o'u heiddo lle bo angen.
12. Adolygu ac ystyried ffynonellau ychwanegol o wybodaeth ar gyfer dilysu ar ôl digwyddiadau yn y dyfodol. Gall hyn greu mwy o ymddiriedaeth mewn rhagolygon a rhybuddion. Mae'n bosibl y bydd angen gofyn am adborth gan bartneriaid proffesiynol ac	Derbyn	Dylai ffynonellau ychwanegol o wybodaeth ar gyfer dilysu ddarparu rhagolygon a rhybuddion mwy cywir ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.

eraill ar gyfer hyn.		
13. Cydweithio â sampl o gymunedau i bennu opsiynau ar gyfer cynnal ymateb lleol effeithiol i rybuddion llifogydd. Dylid ystyried cymunedau lle y mae lefel yr ymateb effeithiol a/neu ymddiriedaeth yn y system rhybuddio yn isel.	Derbyn	Gallai hyn gyfrannu at waith Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru. Er mwyn cael ymateb lleol effeithiol i rybuddion llifogydd mae angen ymwybyddiaeth o risgiau lleol a dealltwriaeth o'r camau i'w cymryd cyn ac yn ystod llifogydd.
14. Pennu a gwerthuso opsiynau i helpu cymunedau i ddod yn fwy cydnerth a hunangynhaliol ac argymell opsiwn penodol.	Derbyn	Mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn darparu cyngor a chymorth ymarferol i'r cyhoedd drwy raglen Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru. Mae swyddogion yn gwneud gwaith i bennu sut y gallai gwasanaeth cymorth llifogydd, tebyg i'r rhai yn yr Alban a Lloegr, weithio yng Nghymru.
15. Paratoi a darparu gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd sy'n gyson yn genedlaethol am y cymorth a'r mathau o fesurau i amddiffyn unedau eiddo sydd ar gael.	Derbyn	Mae angen neges glir ymhob awdurdod o ran a oes bagiau tywod ar gael a'r mesurau i amddiffyn unedau eiddo i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael. Mae angen i hyn fod yn gyson ledled Cymru.
16. Ar sail y profiad o'r stormydd diweddar, pennu a gwerthuso opsiynau ar gyfer datblygu Cynlluniau Llifogydd Lleol yn y dyfodol mewn ardaloedd arfordirol ac argymell opsiwn penodol i helpu i'w gwneud yn fwy effeithiol wrth gydnorthu cymunedau.	Derbyn	Mae Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda chymunedau lleol sydd mewn perygl o lifogydd i greu cynlluniau llifogydd cymunedol ac mae angen parhau â hyn. Dylid defnyddio'r profiadau o'r stormydd diweddar i ystyried a oes angen unrhyw gynlluniau llifogydd lleol eraill mewn ardaloedd arfordirol.
17. Ar sail y profiad o'r stormydd diweddar, pennu a gwerthuso opsiynau ar gyfer datblygu Arweinwyr Cynlluniau Llifogydd Lleol / Wardeiniaid Gwirfoddol yn y dyfodol mewn ardaloedd arfordirol ac argymell opsiwn penodol.	Derbyn	Mae arweinwyr cynlluniau llifogydd lleol a wardeiniaid yn chwarae rhan allweddol o ran cadernid ac adfer cymunedol cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiadau. Dylid defnyddio'r profiadau o'r stormydd diweddar i ganfod cyfleoedd ar gyfer arweinwyr llifogydd newydd/wardeiniaid mewn ardaloedd arfordirol.
Argymhellion – Ymateb Gweithredol		

<p>18. Adolygu a phennu ffyrdd gwell o gynnwys gweithredwyr a rheolwyr seilwaith yn y broses ar gyfer rheoli digwyddiadau lle y mae perygl o lifogydd arfordirol.</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Bwriedir cynnal cyfarfod ddiwedd mis Gorffennaf rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Rheoli Risg i ddechrau gwaith ar gynllun cyflawni ar gyfer yr argymhellion. Bydd gweithredwyr seilwaith yn rhan o'r cyfarfod hwn ac yn rhan o'r gwaith o baratoi'r cynllun cyflawni.</p>
<p>19. Parhau i ddatblygu'r asesiadau, mapiau a/neu ddatganiadau ar gyfer '<i>senarios effaith</i>' posibl. Rhaid datblygu'r gwaith hwn drwy drafod yn fanwl â phartneriaid proffesiynol i sicrhau ei fod yn ateb gofynion yr holl bartïon.</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Yn ystod ymateb i ddigwyddiad, mae angen i wybodaeth am effeithiau posibl a '<i>senarios posibl</i>' fod wrth law i bartneriaid proffesiynol. Gyda'r wybodaeth hon wrth law, gall trafodaethau ganolbwyntio ar ymateb i ddigwyddiad, gan gynnwys tebygolrwydd, amseru a hyder mewn rhagolygon.</p>
<p>20. Adolygu'r broses penderfynu leol a oedd yn gysylltiedig â chyhoeddi Rhybuddion Llifogydd Difrifol a gweithdrefnau i symud pobl o eiddo yn Rhagfyr 2013 a dechrau Ionawr 2014. Pennu gwelliannau a'u rhannu ar lefel Cymru gyfan.</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Dylid nodi arferion da o'r stormydd diweddar, eu datblygu a'u rhannu ledled Cymru lle bo'n briodol. Nodwyd y mater hwn yng Ngrŵp Llifogydd Cymru gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal adolygiad o sut i godi ymwybyddiaeth ymysg Heddlu Gogledd Cymru. Yn ogystal, mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn ymwybodol o'r System Gorchymyn a Rheoli a ddefnyddir gan yr heddlu yn ystod achosion, a bod â dealltwriaeth ohoni. Er mwyn datblygu hyn, mae angen perthnasoedd a chyfathrebu da rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Fforymau Lleol Cymru Gydnerth.</p>
<p>21. Asesu ein gallu cenedlaethol i ymateb i gyfnod hir o lifogydd arfordirol eang. Wrth wneud hyn, dylid ystyried ar ba bwynt y bydd y gronfa adnoddau genedlaethol bresennol yn peidio â gweithio'n effeithiol. Rhaid ystyried materion sy'n ymwneud ag ymadfer ar ôl digwyddiadau hefyd. Darparu adroddiad gydag argymhellion ar gyfer gwella.</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Gellir profi'r ymateb i gyfnod hir o lifogydd mewn ymarferiad i symud nifer mawr o bobl o'u heiddo ar yr arfordir, fel y trafodir yn argymhelliad 22. Oherwydd maint a graddfa'r ymarferiad, ar yr achlysur hwn ni fydd yn cynnwys materion adfer ar ôl digwyddiad. Fodd bynnag, bydd y rhai sy'n ymwneud â'r ymarferiad yn ystyried y camau i'w cymryd o ran adfer ar ôl digwyddiad o'r fath.</p>
<p>22. Asesu'r gallu i ymateb yn effeithiol ar y cyd i senario a all alw am symud nifer mawr o bobl o'u heiddo yng ngogledd-ddwyrain neu dde-ddwyrain Cymru. Rhaid ystyried materion</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Mae ymarferiad i symud nifer mawr o bobl o'u heiddo ar yr arfordir wedi'i gynllunio ar gyfer mis Mawrth 2015. Oherwydd maint a graddfa'r ymarferiad, ar yr achlysur hwn ni fydd yn cynnwys materion adfer ar ôl digwyddiad. Fodd bynnag, bydd y rhai sy'n ymwneud â'r ymarferiad yn</p>

<p>sy'n ymwneud ag ymadfer ar ôl digwyddiadau hefyd. Darparu adroddiad gydag argymhellion ar gyfer gwella.</p>		<p>ystyried y camau i'w cymryd o ran adfer ar ôl digwyddiad o'r fath.</p>
<p>23. Adolygu'r strwythurau cydnerthu yng Nghymru a'u ffyrdd o weithio er mwyn pennu newidiadau a all fod yn angenrheidiol i'n galluogi i fod yn fwy parod a chydnerth gyda'n gilydd i ymateb i lifogydd arfordirol yn y dyfodol.</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Mae angen gwybod pa sgiliau a gallu sydd gennym yng Nghymru i ymdrin â digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol. Gall adolygiad o'r strwythurau sydd eisoes ar waith ystyried a oes angen newidiadau i'r ffordd yr ydym yn gweithio er mwyn gallu ymateb yn well yn y dyfodol. Dylai hyn ddod yn gliriach drwy'r archwiliad sgiliau a gallu ac eglurder am rolau Awdurdodau Rheoli Risg fel y nodir yn argymhellion 37 a 38.</p>
<p>24. Dylid canfod a gwerthuso opsiynau i wella'r diogelwch a ddarperir yn ardal Garford Road yn y Rhyl. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad hydrologig manwl o gynhwysedd a pherfformiad y lagŵn storio. Dylai hyn gynnwys asesiad o agoriadau'r grisiau a'r llithrfa a'r cydadwaith â'r cwrs golff cyfagos.</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cadarnhau bod y rhaglen waith wedi ei nodi i fynd i'r afael â'r materion a lleihau'r perygl o lifogydd yn yr ardal hon.</p>
<p>25. Dylai pob Awdurdod Rheoli Risg yng Nghymru adolygu sut y defnyddir byrddau stopio, logiau stopio, rhwystrau dros dro neu gatiâu y gellir eu symud yn eu hardal leol. Diben yr adolygiad hwn yw galluogi'r Awdurdodau hyn i fod yn fodlon bod eu trefniadau presennol yn briodol ac yn gadarn. Dylid ystyried datrysiadau mwy parhaol, neu rai dros dro mwy cadarn, i gymryd lle'r trefniadau presennol. Dylai fod yr adolygiad hwn yn 'seiliedig ar risg' ac yn canolbwyntio ar y lleoliadau lle ceir y risg leol uchaf.</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Dylai'r adolygiad hwn ymhob Awdurdod Rheoli Risg yng Nghymru ganfod unrhyw wendidau posibl mewn systemau amddiffyn gan fyrddau stopio, logiau stopio neu gatiâu y gellir eu symud er mwyn gwella'r ymateb i ddigwyddiadau yn y dyfodol. Mae Awdurdodau Rheoli Risg yn gyfrifol am adolygu eu systemau/prosesau eu hunain. Fel gyda'r holl waith, dylid defnyddio dull rheoli risg sy'n canolbwyntio ar yr ardaloedd sydd â'r perygl mwyaf o lifogydd yn gyntaf.</p>

<p>26. Dylai pob Awdurdod Rheoli Risg yng Nghymru adolygu lleoliadau lle mae ganddynt systemau amddiffyn eilaidd. Diben yr adolygiad hwn yw galluogi'r Awdurdodau hyn i fod yn fodlon y bydd y systemau eilaidd yn gweithio fel y'u cynlluniwyd pan fo eu hangen. Dylai fod yr adolygiad hwn yn <i>'seiliedig ar risg'</i> ac yn canolbwyntio ar y lleoliadau lle ceir y risg leol uchaf.</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Fel yr uchod yn argymhelliad 25</p>
<p>Argymhellion – Amddiffynfeydd rhag Llifogydd</p>		
<p>27. Mae angen buddsoddiad parhaus i reoli'r risgiau arfordirol cenedlaethol a'u cadw ar lefelau derbyniol. Rhaid i hyn gynnwys rhagolygon llifogydd, rhybuddion, ymwybyddiaeth o lifogydd, ymatebion a gwaith adfer, yn ogystal ag amddiffynfeydd rhag llifogydd. Rhaid canolbwyntio'n benodol ar yr amddiffynfeydd sy'n bodoli eisoes i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at eu diben, yn ogystal â buddsoddi mewn amddiffynfeydd newydd i leihau'r risg o lifogydd mewn mwy o leoliadau.</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Mae rheoli'r perygl llifogydd ac erydiad ar yr arfordir yn parhau'n flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Ni fyddwn yn gwybod beth yw ein setliad ar gyfer 2016-17 a'r tu hwnt nes cynhelir Adolygiad o Wariant 2015. Fodd bynnag, mae'n edrych yn debygol y bydd cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus yn parhau. Er bod yr ansicrwydd ynghylch ein setliad ar ôl 2015/16 yn parhau, byddwn yn dal i wneud yn fawr o'r cyfleoedd i fuddsoddi o fewn y gyllideb sydd gennym. Er bod angen i fuddsoddiad barhau er mwyn sicrhau bod yr amddiffynfeydd presennol yn parhau i fod yn addas i'r diben, mae'n rhaid i fuddsoddiad ganolbwyntio ar ddatblygu a gwella rhagolygon llifogydd, rhybuddion, ymwybyddiaeth o lifogydd, ymatebion a gwaith adfer.</p>
<p>28. Adolygu a chanfod opsiynau i sicrhau cymaint â phosibl o sicrwydd i gyllid rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol dros gyfnod hwy ac i sicrhau cymaint â phosibl o hyblygrwydd o ran sut y caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio. Byddai hyn yn golygu llai o ffocws ar gyllidebau blynyddol a chyllidebau yn ystod y flwyddyn, a mwy o ffocws ar gyflawni a rheoli cyllidebau fesul 3-5 mlynedd.</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Mae'r cyllidebau wedi'u pennu ar gyfer 2015-16 sef y flwyddyn ariannol olaf lle mae gennym setliad cadarn. Ni fyddwn yn gwybod beth yw ein setliad ar gyfer 2016-17 a'r tu hwnt nes cynhelir Adolygiad o Wariant 2015. Byddwn yn canolbwyntio ar wneud y mwyaf o'r cyllid sydd ar gael i roi'r rhaglen rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd ar waith. Bydd y Rhaglen Fuddsoddi Genedlaethol yn cynnig rhaglen tymor hir o gynlluniau y gallwn fuddsoddi ynddyn nhw yn y dyfodol.</p>

<p>29. Dylid bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r Rhaglen Genedlaethol o Fuddsoddiadau fel mater brys, a dylid, wrth ei datblygu, ceisio ystod eang o ffyrdd o weithio a gwelliannau technegol i brosesau dyrannu buddsoddiadau, gwneud penderfyniadau a blaenoriaethu rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol.</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Bydd ymgynghoriad ar Raglen Genedlaethol o Fuddsoddiadau yn cael ei gyhoeddi yn nes ymlaen yn y flwyddyn a bydd yn ystyried pob elfen o gyllid Llywodraeth Cymru. Bydd y rhaglen yn pennu methodoleg o flaenoriaethu er mwyn gosod ardaloedd o Gymru mewn trefn yn ôl eu risg o bob ffynhonnell o lifogydd a pheryglon o erydu arfordirol.</p>
<p>30. Adolygu a nodi opsiynau i gael mwy o gyllid i ategu'r buddsoddiad rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol craidd. Rhaid alinio hyn yn agos â'r gwaith o ddatblygu'r Rhaglen Genedlaethol o Fuddsoddiadau.</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Dros y misoedd nesaf, bydd gwaith yn parhau gyda phartneriaid cyflawni mewn awdurdodau lleol i edrych ar ariannu rhaglen amddiffyn rhag llifogydd arfordirol mewn modd arloesol. Bydd cyhoeddiadau pellach am y cynllun hwn yn yr hydref.</p>
<p>31. Cynhyrchu set ddata genedlaethol lawn o asedau amddiffyn a diogelu arfordirol, gan gynnwys manylion yr ardaloedd sy'n elwa ohonynt. Mae'n hanfodol bod y set ddata hon yn dod yn <i>'offeryn rheoli byw'</i> yn hytrach na dim ond darlun yn cynrychioli ciplun mewn amser. Felly, rhaid cysylltu'r set ddata hon â phroses i sicrhau y cynhelir y wybodaeth.</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Byddai set ddata genedlaethol lawn o'r System Gwybodaeth Ddaearyddol yn dangos pa ardaloedd sy'n cael budd o'r amddiffynfeydd sy'n bodoli. Bydd hyn yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaeth rheoli risg arfordirol sy'n seiliedig ar risg sy'n fwy effeithiol ac effeithlon.</p>
<p>32. Adolygu a chanfod opsiynau i gyflawni dulliau mwy cyson o archwilio'r rhwydwaith o systemau amddiffyn yr arfordir. Rhaid i hyn gynnwys argymhellion i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y broses o archwilio asedau.</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Mae hwn yn gysylltiedig ag argymhelliad 31. Unwaith y bydd lleoliad a pherchnogaeth amddiffynfeydd yn hysbys, gellir datblygu rhaglenni archwilio. Bydd dull mwy cyson yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaeth rheoli risg arfordirol sy'n seiliedig ar risg sy'n fwy effeithiol ac effeithlon.</p>
<p>33. Parhau i ddatblygu rhaglen wedi'i blaenoriaethu'n genedlaethol o wella prosesau modelu a mapio arfordirol. Rhaid i hyn fod yn seiliedig ar risg genedlaethol ac yn gyson.</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Dylai hyn ychwanegu at y Mapiau Perygl Erydu Arfordirol Cenedlaethol a mapiau llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru a'u hategu. Mae angen i'r gwaith mapio a modelu fod yn gyfoes a bod yn hysbys. Bydd parhau i wella Mapiau Perygl Erydu Arfordirol Cenedlaethol a mapiau Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwella ein dealltwriaeth o risgiau</p>

		arfordirol a sut i'w rheoli a gwneud penderfyniadau yn eu cylch.
34. Dylid cynnal asesiadau risg mewn lleoliadau a chymunedau lle bu llifogydd ym mis Rhagfyr 2013 ac ar ddechrau mis Ionawr 2014 i bennu a oes angen mwy o weithgarwch/ymyrraeth rheoli risg ac a ellir cyfiawnhau hynny.	Derbyn	Mae angen gwneud hyn yn rheolaidd fel rhan o raglen waith Awdurdodau Rheoli Risg. Mae'n bosibl bod y risg o lifogydd arfordirol yn dilyn stormydd y gaeaf wedi cynyddu o'r sefyllfa cyn y stormydd oherwydd newidiadau i wyneb blaendraethau a thraethau mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt. Mae angen ystyried y newidiadau hyn ac unrhyw risgiau newydd.
35. Dylid canfod lleoliadau cael a chael a lleoliadau lle bu newid sylweddol i'r blaendraeth a chynnal asesiadau risg ynddynt i bennu a oes angen mwy o weithgarwch/ymyrraeth rheoli risg ac a ellir cyfiawnhau hynny.	Derbyn	Mae angen gwneud hyn yn rheolaidd fel rhan o raglen waith Awdurdodau Rheoli Risg. Bu bron i'r lleoliadau 'cael a chael' ddiodeff llifogydd sylweddol. Mae'n bosibl bod y risg o lifogydd arfordirol yn dilyn stormydd y gaeaf wedi cynyddu o'r sefyllfa cyn y stormydd oherwydd newidiadau i wyneb blaendraethau a thraethau yn yr ardaloedd hyn. Mae angen ystyried y newidiadau hyn ac unrhyw risgiau newydd.
36. Cwblhau'r diweddariad parhaus i asesiad 'cyflym' Cyfnod 1 o'r newidiadau amgylcheddol a fu o ganlyniad i stormydd mis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014.	Derbyn	Mae hwn yn weithgaredd parhaol sy'n cael ei gynnal gan Cyfoeth Naturiol Cymru a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mehefin 2014.
37. Cynnal archwiliad cenedlaethol o sgiliau a galluoedd pob Awdurdod Rheoli Risg i asesu a mesur difrifoldeb y mater – asesu maint y bwllch sgiliau a galluoedd. Cynhyrchu dogfen o opsiynau i gau'r bwllch sgiliau a galluoedd i fodloni gofynion y presennol o ran rheoli risg llifogydd yn y presennol a heriau'r dyfodol.	Derbyn	Nododd yr adolygiad bod y llifogydd wedi bod yn brawf difrifol o'r adnoddau a oedd ar gael yn ystod y llifogydd, ond eu bod wedi gweithio'n dda. Bydd gwybod pa sgiliau ac adnoddau sydd ar gael o gymorth i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Cynhaliwyd arolwg tebyg gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i edrych ar sgiliau a gallu staff awdurdodau lleol ym mis Mai 2012 - gellir defnyddio hyn fel sail i adolygiad o'r fath y gellid ei ddiweddarau, ychwanegu ato a'i ehangu i'r gymuned Awdurdodau Rheoli Risg gyfan yn ôl yr angen.
38. Egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau ymysg awdurdodau rheoli risg ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol yn ôl yr angen. Datblygu	Derbyn	Bydd egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau yn creu mwy o sicrwydd ac yn lleihau'r posibilrwydd o ddryswch, yn enwedig i gymunedau. Dylai swyddogaethau a chyfrifoldebau adlewyrchu'r hyn sydd wedi'i

<p>negeseuon ac offer cyfathrebu cyson a chyffredin i egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau i gymunedau.</p>		<p>gynnwys yn y Strategaeth Genedlaethol a Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.</p> <p>Cynhaliwyd arolwg gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i edrych ar sgiliau a gallu staff awdurdodau lleol ym mis Mai 2012 - gellir defnyddio hyn fel sail i adolygiad o'r fath y gellid ei ddiweddarau, ychwanegu ato a'i ehangu i'r gymuned Awdurdodau Rheoli Risg gyfan.</p>
<p>39. Cynnal adolygiad o Grwpiau Arfordir Cymru a Fforwm Grwpiau Arfordir Cymru. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys, fel y bo'n briodol, y cysylltiadau a'r perthnasoedd â grwpiau tebyg eraill sy'n chwarae rhan yn y broses o reoli risgiau llifogydd ac erydu arfordirol. Dylai'r adolygiad hwn ganfod opsiynau i wella i sicrhau y cyflawnir canlyniadau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Yn sgil maint yr heriau sy'n ein hwynebu o ran rheoli risg arfordirol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, efallai bod angen adolygu aelodaeth a rôl y grwpiau arfordirol a'r fforwm arfordirol i sicrhau eu bod yn parhau i gyfrannu'n effeithiol at y gwaith o reoli'r risgiau arfordirol cenedlaethol a lleol.</p>
<p>40. Cyflwynodd Canolfan Monitro Arfordirol Cymru achos busnes ar gyfer dyfodol y ganolfan i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2013. Dylai Llywodraeth Cymru wneud penderfyniad ynglŷn â'r achos busnes hwn.</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Mae Canolfan Monitro Arfordirol Cymru wedi paratoi achos busnes yn nodi gofynion monitro'r arfordir yn y dyfodol yng Nghymru ac yn amlinellu anghenion monitro arfordirol pellach. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried yr achos busnes ar hyn o bryd.</p>
<p>41. Dylai Llywodraeth Cymru gymeradwyo'r fframwaith strategol a sefydlwyd gan y Cynlluniau Rheoli Traethlin (SMP2). I gyd-fynd â hyn, dylid rhoi mwy o gymorth cenedlaethol a lleol i gymunedau a chynnwys cymunedau wrth ddatblygu opsiynau a chynlluniau addasu lleol. Datblygu 'pecyn offer addasu lleol' i roi gwell cymorth i gymunedau. Gallai hwn gynnwys canllawiau technegol, templedi, ac offer ymgysylltu a</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p>	<p>Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin (SMP2) wrthi'n cael eu hadolygu ac yn disgwyl cael eu cymeradwyo gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd.</p> <p>Mae angen i'r Cynlluniau Rheoli Traethlin gael eu rhoi ar waith a'u cyfathrebu ar lefel leol, gan ddeall materion ac anghenion lleol a chynnwys cymunedau lleol. Gall Llywodraeth Cymru roi cyngor ac arweiniad strategol; fodd bynnag, rhaid i'r gwaith o wneud penderfyniadau, cynllunio ac addasu ddigwydd yn lleol.</p> <p>Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo'r grŵp aml-asiantaeth yn Fairbourne, <i>Grŵp Fairbourne yn Wynebu Newid</i>, a bydd</p>

<p>chyfathrebu a safbwyntiau polisi. Mae angen i drafodaethau lleol ddechrau nawr ym mhob cymuned arfordirol, gan gynnwys partneriaid proffesiynol a'r gymuned. Dylai'r trafodaethau hyn ystyried cymunedau'n seiliedig ar risg. Mae angen i'r trafodaethau hyn archwilio a datblygu cynlluniau lleol i addasu a chynyddu gwytnwch dros amser. Cefnogi grŵp amlasiantaethol Fairbourne, a defnyddio eu profiadau i helpu i roi sail i drafodaethau am addasu a gwytnwch cymunedau mewn lleoliadau eraill.</p>		<p>yn parhau i gefnogi'r grŵp.</p>
<p>42. Adolygu a gwerthuso'r rhwystrau a'r bylchau presennol i gynorthwyo addasu arfordirol a gwneud argymhellion i wella'r broses. Adolygu, lle bo angen, canllawiau newid yn yr hinsawdd presennol er mwyn sicrhau defnyddio'r dull addasaf gan bawb sydd â rhan ym mhob agwedd ar reoli perygl llifogydd ac erydu'r glannau (sef pob adran Llywodraeth, ARhP, gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau).</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p>	<p>Mae dau lythyr wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar am y mater hwn; y cyntaf i Brif Swyddogion Cynllunio am y newidiadau mewn sicrwydd yswiriant i eiddo sydd mewn perygl o lifogydd, a'r ail i holl arweinwyr cynllunio awdurdodau lleol i'w hatgoffa o bwysigrwydd risg llifogydd, y defnydd o Bolisi Cynllunio Llywodraeth Cymru a chyngor sydd wedi'i gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru a TAN 15. Mae tystiolaeth yn dangos bod TAN 15 yn parhau i weithio, gan gyfeirio datblygiadau i ffwrdd o leoliadau anaddas.</p> <p>Mae polisi arfordirol wedi'i gynnwys yn y Strategaeth Genedlaethol a dylai'r adolygiad bob dwy flynedd o'r Strategaeth Genedlaethol gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn adrodd o dan adran 18 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr ganfod unrhyw broblemau.</p>
<p>Argymhellion – Gwytnwch Seilwaith</p>		
<p>43. Adolygu a gwneud argymhellion ar gyfer sut y gall Awdurdodau Rheoli Risg a gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau gydweithio'n weithredol yn fwy effeithlon ac effeithiol. Dylai hyn roi ystyriaeth ffurfiol i ddefnyddio amrywiaeth o gytundebau gwaith i</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Caiff ffyrdd newydd o weithio a gwella cyfathrebu ac ymgysylltu rhwng Awdurdodau Rheoli Risg a gweithredwyr seilwaith/cyfleustodau eu hannog bob amser.</p> <p>Dylai unrhyw waith ac argymhellion ychwanegol yn deillio o'r cynllun cyflawni gynnwys yr holl bartneriaid perthnasol.</p> <p>Bydd gweithredwyr seilwaith yn cael cyfrannu at y Cynllun Cyflenwi.</p>

<p>sicrhau eglurder swyddogaethau a chyfrifoldebau rhwng partneriaid proffesiynol ac i gymunedau.</p>		
<p>44. Adolygu a gwneud argymhellion os oes angen gwneud mwy i alluogi gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau i gydweithio'n effeithiol a rhyngweithio ar faterion sydd o fudd i'r naill ochr a'r llall. Gallai hyn gynnwys adolygu swyddogaeth a chylch gwaith Grŵp Cyfleustodau Cymru ac opsiynau eraill.</p>	<p>Derbyn</p>	<p>Dylai unrhyw waith ac argymhellion ychwanegol yn deillio o'r cynllun cyflawni gynnwys yr holl bartneriaid perthnasol.</p>
<p>45. Annog a chynorthwyo datblygiad rhaglenni gwaith i gynyddu gwytnwch asedau seilwaith a chyfleustodau. Rhaid alinio'r rhain â chynlluniau addasu cymunedau lleol. Adolygu, lle bo'n briodol, a oes rhwystrau rheoleiddio sy'n rhwystro'r broses hon o addasu a chanfod gwelliannau rheoleiddio a allai fod o gymorth.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p>	<p>Bydd sicrhau gallu'r seilwaith i ddygymod â'r perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn ystyriaeth bwysig i bob gweithredwr seilwaith. Nhw sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pa waith sydd angen ei wneud i'w hasedau.</p>
<p>46. Adolygu a gwerthuso, ar lefel genedlaethol Cymru, effeithiau senarios newid yn yr hinsawdd ar seilwaith Network Rail a seilwaith priffyrdd o gwmpas arfordir Cymru a'r opsiynau addasu hirdymor.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p>	<p>Mater i'r awdurdod priffyrdd perthnasol neu Network Rail i'w ystyried yw hwn, gyda CNC a Chanolfan Monitro Arfordirol Cymru i ddarparu data ac unrhyw gyngor perthnasol.</p>
<p>47. Cynnal asesiad cenedlaethol rheolaidd o wytnwch seilwaith a chyfleustodau ledled Cymru, er mwyn rhoi sicrwydd o gynnydd cenedlaethol tuag at fwy o wytnwch i risgiau llifogydd ac erydu arfordirol.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p>	<p>Mae hyn yn amodol ar gytundeb a chynnydd o ran argymhellion 43 i 46. Bydd gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau eisoes yn adolygu gwytnwch eu hasedau.</p>